Tyfu ar gyfer twf

E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – rhifyn yr Hydref 2025.

Croeso i'n e-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

Adroddiad arbennig: Pentref Garddwriaeth Sioe Frenhinol Cymru 2025

Cynhaliwyd y digwyddiad garddwriaeth mwyaf yng Nghymru ym mis Gorffennaf yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt. Dyma oedd ail flwyddyn Pentref Garddwriaeth y Sioe Frenhinol, gyda Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn gweithio ochr yn ochr â Phwyllgor Garddwriaeth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Diolch i'r holl sefydliadau a fu'n gweithio i ddod â'r pentref yn fyw.

Bu i enwogion ymweld â'r pentref, gan gynnwys ymweliad arbennig iawn gan EHB Anne, y Dywysoges Frenhinol, yn ystod ei thaith o amgylch y sioe. Darlledwyd rhaglen Farming Today ar Radio 4 o **Bafiliwn Addysg Dysgubor** y Pentref, lle cynhaliwyd rhaglen o sgyrsiau gan siaradwyr a phaneli arbenigol. Lansiwyd Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol gan Bwyd Sir Gâr a chyhoeddwyd enillydd Academi Amaeth yr Ifanc ar y llwyfan.

Rhoddodd **'Garddwelyau Sioe Micro - Micro Gardens'** gyfle i arddwriaethwyr a sefydliadau o Gymru arddangos eu sgiliau.

Mae'r **Cytiau Garddwriaeth** newydd yn hyrwyddo gyrfaoedd, cyfleoedd dysgu a busnesau mewn garddwriaeth, gan gynnwys y sefydliadau canlynol:

- Lantra Yn cynnig cymorth gyda gyrfaoedd ym maes Garddwriaeth a thu hwnt
- Landworkers' Alliance Undeb democrataidd dan arweiniad ei aelodau
- Menter Môn Rhaglen amaeth-dechnoleg yn lletya Tyfwyr; Fungi Foods a Micro Acres Wales.
- Bio Bloom Biochar Deunydd gwella'r pridd a gynhyrchir mewn sypiau bach ar fferm
- Cymdeithas y Pridd Yr elusen sy'n gweithio i drawsnewid y ffordd rydym yn bwyta, yn ffermio ac yn gofalu am ein byd naturiol.
- Mae Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn rhoi cymorth, arweiniad a hyfforddiant i ffermwyr
- Synnwyr Bwyd Cymru Yn cyd-greu system fwyd i Gymru sy'n dda i bobl a'r blaned.

Y Farchnad - Marchnad Tyfwyr, wedi'i threfnu gan Arddwriaeth Cyswllt Ffermio i arddangos tyfwyr masnachol:

- Pheasant Acre Plants Enillwyr sawl Gwobr Medal Aur yr RHS
- Farmyard Nurseries a The House Plant Place Dros 2000 o blanhigion caled ac enillydd arall Medal Aur yr RHS.
- Grŵp Colegau NPTC Castell-nedd Port Talbot Un o'r mwyaf yng Nghymru.
- West Wales Willows gyda Chasgliad Cenedlaethol o Blanhigion Salix/Helyg.
- Fferm dad-ddofi tir amaethyddol a gofod dysgu Henbant
- The Garden Cambrica Cynllunio a chreu gerddi yng Nghymru.

Mae'r Pentref Garddwriaeth yn ehangu ymhellach wrth iddo ddatblygu. Os hoffech chi fod yn rhan o sioe'r flwyddyn nesaf, cysylltwch â'r tîm ar horticulture@lantra.co.uk.

Grantiau a Chynlluniau

Peidiwch â cholli'r dyddiad cau ar gyfer grantiau a chynlluniau garddwriaethol gan Lywodraeth Cymru!

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

- Mae'r **Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol a Garddwriaeth bellach ar agor;** y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw ***5 Rhagfyr 2025***.
- Bydd y ffenestr ar gyfer **Grantiau Bach - Dechrau Busnes Garddwriaeth** yn agor ar **3 Tachwedd 2025**; y dyddiad cau yw ***16 Ionawr 2026***.

Gweler ein canllawiau ar wneud cais am grantiau garddwriaeth yma fel man cychwyn i ddod o hyd i'r holl ddolenni ar gyfer gwneud cais. *Cofiwch y gallwch chi hefyd drefnu **sesiwn cymorth busnes un i un wedi'i ariannu'n llawn** i'ch helpu chi; e-bostiwch Horticulture@lantra.co.uk. Mae templed cynllun busnes am ddim ar gael yma.*

Diweddaru eich gwybodaeth

Cynllunio ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda Cyswllt Ffermio

Lansiwyd manylion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd gan Lywodraeth Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru eleni. Mae'r cynllun hwn yn disodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) presennol, a bydd yn cefnogi ffermwyr a thyfwyr i'r dyfodol. Mae 12 Gweithred Gyffredinol fel rhan o'r cynllun, ac un ohonynt yw gofyniad am 6 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) blynyddol. Mae cyfres o fodiwlau e-ddysgu achrededig wedi'u darparu gan Cyswllt Ffermio a fydd yn cyfrif tuag at y Weithred Gyffredinol hon, sef UA4, i'r rhai sy'n cofrestru eleni.
Mynnwch air â Cyswllt Ffermio i gael cymorth i gwblhau cyrsiau hyfforddiant eleni a fydd yn cyfrif tuag at Weithred Gyffredinol 4 ar gyfer 2026.

Mae gan Arddwriaeth Cyswllt Ffermio ystod o fodiwlau e-ddysgu hefyd sydd ar gael i dyfwyr i helpu gyda'u DPP:

- Egwyddorion plâu a chlefydau planhigion
- Diogelwch bwyd i dyfwyr cynnyrch ffres
- Cadw planhigion yn iach mewn lleoliad masnachol
- Garddwriaeth: Diwydrwydd dyladwy ar gyfer tyfwyr ar raddfa fach
- Garddwriaeth – Compostio ar y safle ar gyfer eich menter arddwriaethol
- Cyflwyniad i egwyddorion IPM mewn garddwriaeth
- Cyflwyniad i'r prif fathau o luosogi stoc galed
- Garddwriaeth – Sut i adnabod rhai o'r plâu, clefydau a chwyn mwyaf cyffredin mewn cnydau garddwriaeth

Mae ein modiwlau e-ddysgu garddwriaeth ar BOSS, lle gallwch hefyd ddod o hyd i'r cyrsiau rydych chi wedi'u cwblhau a'ch cofnodion dysgu yn eich Storfa Sgiliau – yr adnodd storio data ar-lein diogel ar gyfer DPP a ddarperir am ddim i fusnesau sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Gofynnwch i'r tîm am ragor o wybodaeth am yr adnodd hwn a sut i greu Cynllun Datblygu Personol i chi a'ch menter!

Cyngor am Basbortau Planhigion bellach ar gael i dyfwyr

Mae pasbortau planhigion yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau sy'n gwerthu planhigion i fusnesau neu sy'n gweithredu ar-lein. Maent yn offeryn hanfodol i gynnal bioddiogelwch, rhoi sicrwydd i gwsmeriaid bod planhigion yn cael eu tyfu i safon uchel a sicrhau y gellir olrhain planhigion yn ôl trwy'r gadwyn gyflenwi os bydd plâu neu broblemau clefydau yn dod i'r amlwg.
Er mwyn helpu tyfwyr i lywio cymhlethdodau gyda chydymffurfiaeth pasbortau, mae Garddwriaeth Cyswllt Ffermio wedi creu adnodd ynghylch pasbortau planhigion. Mae hynny, ynghyd â llawer o daflenni ffeithiau ac erthyglau eraill yn ymwneud â garddwriaeth, ar gael ar ein tudalen Adnoddau. Mae'r tîm hefyd yn cynnal gweminar ar y pwnc - gweler yr adran *Beth sydd ymlaen?* isod.

Beth sydd ymlaen?

Mae Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau i dyfwyr ddiweddaru eu gwybodaeth. Cadwch lygad ar ein rhestr o ddigwyddiadau yma yr hydref hwn, wrth i ni baratoi ar gyfer rhaglen newydd gyffrous o weithgareddau:

- **7/10/25** Gweithdy Lluosogi Perlysiau – gyda Charles Warner ac Andy Cook
- **15/10/25** Gweminar: Cyflwyniad i Basbortau Planhigion
- **4/11/25 i'w gadarnhau** Gweithdy Tocio Adferol
- **6-7/11/25** Diwrnodau Hyfforddiant Garddwriaeth Adfywiol: Llysiau – yn Awen Organics
- **11/11/25** Gweminar Cylchdroi Cnydau – gyda Tony Little

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cnydau gan ddilyn argymhellion y label bob tro, a dylid eu darllen cyn chwistrellu. Mae'r risg o ddefnyddio'r plaladdwr yn nwylo'r defnyddiwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y

cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar y label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr neu gynnyrch llesol. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad - mae cyngor dros e-bost/dros y ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn sicrhau, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti y ceir dolenni iddynt yn y ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd y ceir dolenni iddi mewn unrhyw faner neu ddeunydd hysbysebu arall.